

Cyfarfod ar y Cyd o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes

COFNODION

Dyddiad	23 Mai 01
Amser	1.30 – 3pm
Lleoliad	Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Presenoldeb

Aelodau***Etholaeth***

Cynog Dafis (Cadeirydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes) – yn y Gadair

Canolbarth a Gorllewin Cymru

Christine Gwyther (Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd)

Gorllewin Sir Gaerfyrddin a De Sir Benfro

Alun Cairns

Gorllewin De Cymru

Christine Chapman

Cwm Cynon

Glyn Davies

Canolbarth a Gorllewin Cymru

Ron Davies

Caerffili

Mike German (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd)

Dwyrain De Cymru

Alison Halford

Delyn

Brian Hancock

Islwyn

Phil Williams

Dwyrain De Cymru

Lorraine Barrett

De Caerdydd a Phenarth

Eleanor Burnham

Gogledd Cymru

Jane Davidson (Y Gweinidog dros Addysg)

Pontypridd

Janice Gregory	Ogwr
Pauline Jarman	Canol De Cymru
Gareth Jones	Conwy
Huw Lewis	Merthyr Tudfil a Rhymni
Jonathan Morgan	Canol De Cymru
Alun Pugh	Gorllewin Clwyd

Dirprwyadau

Dirprwyodd Janet Davies dros Dafydd Wigley, a dirprwyodd Brian Gibbons dros Val Feld, ar gyfer y rhan hon o'r cyfarfod.

Swyddogion

David Pritchard	Cyfarwyddwr, yr Adran Ddatblygu Economaidd
Richard Davies	Cyfarwyddwr, yr Adran Addysg a Hyfforddiant
Rachael Clancy	Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol

Cyfranwyr Allanol

Graham Moore	Cyfarwyddwr Gweithredol, Prosiectau Strategol y WDA
Steve Martin	Prif Weithredwr, ELWa
Sheelagh Keyse	Y Gwasanaeth Cyflogaeth
Ray Collier	Gyrfaedd Cymru

Ysgrifenyddiaeth

John Grimes	Clerc y Pwyllgor Datblygu Economaidd
-------------	--------------------------------------

Sian Wilkins

Dirprwy Glerc y Pwyllgor Datblygu
Economaidd

Chris Reading

Clerc y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes

Holly Pembridge

Dirprwy Glerc y Pwyllgor Addysg a Dysgu
Gydol Oes

Sylwadau agoriadol y Cadeirydd.

1.1 Croesawodd Cynog Dafis yr Aelodau i'r cyfarfod a dywedodd ei fod wedi cytuno â Chris Gwyther y byddai'n cadeirio'r sesiwn ar y cyd hwn o'r ddau Bwyllgor.

1.2 Ymddiheurodd dros Dafydd Wigley a gynrychiolid gan Janet Davies a dros Val Feld a gynrychiolid gan Brian Gibbons. Cyfeiriodd at ddatganiadau o fuddiant Aelodau'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes a ddangoswyd yn y papurau. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant gan yr un Aelod arall yn y cyfarfod.

Eitem 1: Trafodaeth ar y Cyd ar Corus

1.3 Dywedodd y Cadeirydd mai pwrpas y cyfarfod oedd archwilio pecyn cymorth y Gweinidogion i liniaru effeithiau'r colledion swyddi yng ngweithfeydd Corus.

1.4 Cyflwynodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ei bapur gan ddweud bod yr hyn a gynigid yn becyn da a oedd wedi ei lunio'n ofalus ymhell cyn ei gyhoeddi a thra oedd negodiadau rhwng yr Undebau a Corus yn dod i'w terfyn. Cyfeiriodd at y fframwaith strategol a ddatblygir gan Dasglu Dur Cymru Gyfan a'i grŵp gweithredol o swyddogion a oedd i fod i gyfarfod y diwrnod canlynol yng Nglyn Ebwy. Eu tasg gyntaf fyddai ystyried adroddiad cwmpasu a arweinai'n gyntaf at ddatblygu strategaeth ar gyfer de ddwyrain Cymru. Amlinellodd y Gweinidog elfennau'r pecyn a geir yn y papur a nododd fod y Cynllun Budd-dal Ailaddasu Gweithwyr Cyflogedig Haearn a Dur yn gofyn deddfwriaeth eilaidd cyn y gellid dechrau'r taliadau. Pwysleisiodd fod y taliad, a ddeuai i £2,500 y pen, yn cynnwys hanner o arian y DU a hanner o arian yr UE. Dywedodd y câi ei weinyddu gan yr Adran Masnach a Diwydiant a disgwylid y byddai'r trefniadau ar waith erbyn diwedd Awst.

1.5 Siaradodd Graham Moore am y camau a gymerir gan y WDA i gynorthwyo datblygu safleoedd Corus. Nododd eu bod oll yn wahanol ac yr oedd yn bwysig i'r Awdurdod ymateb i amgylchiadau pob un a hynny mewn cydweithrediad agos â chyrrff a mudiadau lleol. Dywedodd fod effaith y cau ar ei mwyaf yn ne ddwyrain Cymru a nododd fod llawer o'r gwaith datblygu economaidd diweddar yn seiliedig ar fodolaeth gweithfeydd dur yng Nglyn Ebwy ac yng Nghasnewydd. Yr oedd angen cymryd sylw o'r darlun ehangach a pheidio â bod yn gaeth i ffiniau gweinyddol, gan fod y gweithlu a effeithir gan gau'r gweithfeydd yn dod o ardal ehangach o lawer. Ar hyn o bryd yr oeddent yn gwneud ymarfer cwmpasu ar gyfer astudiaeth cynllunio gofodol i dde ddwyrain Cymru ar y cyd â'r holl awdurdodau lleol yn yr ardal.

1.6 Cyflwynodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes y mesurau cymorth a oedd yn ei phapur.

Dywedodd fod cysylltiad agos rhwng y rhain a pheccynau'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd. Dywedodd ei bod yn dymuno talu teyrnged i ELWa, Gyrfaoedd Cymru a'r Gwasanaeth Cyflogaeth oherwydd y modd y maent wedi newid i gêr uwch er mwyn ymateb i'r colledion swyddi a gyhoeddwyd. Yr oeddent wedi sefydlu canolfannau cynghori yn yr holl safleoedd ac yr oeddent yn darparu cyngor cynhwysfawr wedi ei addasu i anghenion penodol unigolion. Yr oedd y gwasanaethau hyn ar gael yn gyfartal ledled Cymru. Pwysleisiodd fod amrediad eang i'r cyngor hwn a'i bod yn holl bwysig i'r Cynulliad Cenedlaethol weithio'n agos mewn partneriaeth â'r holl asiantaethau yn yr ardal. Rhoddodd glod hefyd i waith yr Undebau. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn gallu cyhoeddi yn y cyfarfod hwn fod £300,000 wedi ei ddarparu gan y Cynulliad Cenedlaethol dros gyfnod o dair blynedd o dan Gronfa Dysgu Undebau Cymru ar gyfer prosiect Medrau Cyflogaeth Modern i Weithwyr Dur sydd o dan Fygythiad o'u Diswyddo Sefydliad y Cyfathrebwyr Gwyddonol a Thechnegol. Yr oedd y Gweinidog yn obeithiol y byddai prosiect Sefydliad y Cyfathrebwyr Gwyddonol a Thechnegol o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn cael ei gymeradwyo.

1.7 Pwysleisiodd Steve Martin o ELWa mor bwysig oedd mynd ymlaen mewn partneriaeth â'r asiantaethau eraill. Dywedodd y byddai ELWa yn defnyddio'r adnoddau ychwanegol a roddwyd iddo yn effeithiol er mwyn ymateb i'r diswyddiadau. Nododd fod yr heriau'n fwy mewn rhai ardaloedd nag mewn eraill gan fod anghenion unigolion yn amrywio'n fawr iawn. Dywedodd ei bod yn bwysig rhoi ystyriaeth hefyd i anghenion y cymunedau a effeithiwyd gan y colledion swyddi ac yn enwedig y rheini lle'r oedd lefelau diweithdra uchel a lefelau medrau isel eisoes.

1.8 Nododd Ray Collier o Gyrfaoedd Cymru effaith eang y colledion swyddi ac ategodd fod angen i gyrrff fod yn hyblyg a gweithio gyda'u partneriaid mewn ardaloedd cyfagos. Ymgymerei Cwmnïau Gyrfaoedd Cymru ag asesiadau ffurfiol o anghenion unigolion, gan roi sylw'n aml i anghenion cyffredinol eu teuluoedd. Mewn rhai achosion byddent yn eu helpu i ddychwelyd i addysg bellach i'w galluogi i ddatblygu medrau newydd. Pwysleisiodd mor bwysig oedd ystyried anghenion pobl yn y tymor hir.

1.9 Ategodd Sheelagh Keyse o'r Gwasanaeth Cyflogaeth yr hyn a ddywedodd y siaradwyr blaenorol. Pwysleisiodd, er gwaethaf y ffaith bod nifer fawr o bobl yn ceisio cymorth, ei bod yn bwysig addasu'r cyngor a roddir i anghenion yr unigolyn.

1.10 Yn y drafodaeth codwyd nifer o bwyntiau:

- a. Er bod cyfeiriadau yn y cynigion at symiau sylweddol o arian, yr oedd angen ystyried y rhain yng nghyd-destun nifer y colledion swyddi. Gan gysylltu hynny â'r Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol, y targed oedd creu 5000 o swyddi ar ben y nifer a ddynodwyd yn y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol. Nodwyd nad oedd cymorth hyfforddi o £5.75 miliwn ond tua £1,100 y swydd. Er bod hyfforddiant i bobl symud i'r diwydiannau uwchdechnoleg newydd efallai'n costio £3,000-£5,000 y swydd yn nodweddiadol, ni fyddai ar bawb angen hyfforddiant i'r graddau hynny. Ar hyn o bryd yr oedd yn anodd asesu pa nifer a fyddai mewn categori o'r fath ond ym mhrofiad ELWa yr oedd tua 25% ar gyfartaledd. Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig bod yn hyblyg.
- b. Mynegwyd pryder ynghylch ffynhonnell y gost o ariannu'r pecyn hwn ac, os ydoedd oddi mewn adnoddau'r Cynulliad Cenedlaethol, a fyddai hynny ar draul rhaglenni eraill. Cyfeiriwyd yn arbennig at y £100 miliwn o gyllid canlyniadol. Sicrhaodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd y cyfarfod na ddeuai unrhyw ran o'r £50 miliwn a ddyfynnwyd yn y pecyn o'r swm olaf. Cadarnhaodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ei fod yn disgwyl i Corus dalu cost adfer y safleoedd a fyddai'n cau a hefyd i gyfrannu at eu datblygu ymhellach. Ni allai roi mwy o fanylion ar hyn o bryd, oherwydd yr oedd y negodiadau â'r cwmni'n mynd ymlaen, ond yr oedd yn gweithio ar sail sicrhau'r ad-daliad mwyaf posibl ganddynt a chyfraniad sylweddol at y £50 miliwn. Cadarnhaodd na fyddai'n

disgwyl i arian y Cynulliad Cenedlaethol fynd at gyflawni cyfrifoldebau a oedd yn perthyn i Corus fel adfer y safleoedd.

- c. Pwysleisiodd yr Aelodau mor bwysig oedd ceisio galluogi pobl i drosglwyddo'n 'ddi-dor' i swyddi newydd. Cadarnhaodd y Gweinidogion fod hyn yn bwysig a bod angen ei weld yn rhan o broses dymor hir. Gofynnodd yr Aelodau am gael derbyn adroddiadau rheolaidd ar gynnydd a chytunodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes i ddarparu'r rhain i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ac i roi copïau ohonynt i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd. Pwysleisiodd ei bod yn credu ei bod yn bwysig ymgymryd â gwerthusiad trwyadl, gyda hyn, ar effeithiolrwydd y mesurau a weithredwyd – gallai hynny fod yn werthfawr os oedd y Cynulliad yn gorfod ymateb i gau mawr arall.
- d. Mynegodd yr Aelodau bryder bod diffiniad cyfyng i raglen y Cynllun Budd-dal Ailaddasu Gweithwyr Cyflogedig Haearn a Dur a mynegasant y farn y dylai fod ar gael i isgcontractwyr a gweithwyr mewn cwmnïau annibynnol eraill a oedd yn dibynnu ar Corus am eu bywoliaeth. Eglurodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd fod y meini prawf yn gymhleth iawn a bod cymhwyster wedi ei gyfyngu'n benodol i'r rhai sydd yn gweithio ar broses sydd â chysylltiad anorfod â gwneud dur. Ychwanegodd nad oedd ar gael i rai yn nosbarth y rhai gwael tymor hir. Pwysleisiodd y byddai angen edrych yn ofalus ar amgylchiadau'r contractwyr unigol ac y byddai pob un yn cael ei ystyried yn ôl ei haeddiant. Dywedodd fod llai o hyblygrwydd nag a allai fod yn berthnasol mewn sefyllfaoedd eraill am fod y cynllun yn gweithredu o dan Gytundeb Paris.
- e. Mynegwyd pryder y gallai Corus ei chael yn fanteisiol peidio â glanhau'r safleoedd ond dywedodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd nad oedd arwydd o hynny. Credai ei bod er budd y cwmni at ei gilydd i beri eu bod ar gael i'w rhyddhau.
- f. Gwnaeth yr Aelodau sylw am y £2 filiwn ar gyfer cymorth busnes ychwanegol y cyfeirir ato yn adroddiad y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a mynegasant y farn nad oedd yn swm mawr. Nododd y Gweinidog fod yr arian hwn yn ychwanegol at y rhaglenni cymorth presennol, ond i ryw raddau yr oedd yn anodd barnu ynghylch y swm a oedd i'w ddyrannu i wahanol raglenni ar hyn o bryd. Gellid adolygu'r ffigurau yng ngoleuni profiad – a nodwyd bod y pecyn yn cynnwys £5 miliwn ar gyfer amgylchiadau annisgwyl.
- g. Yr oedd yr Aelodau'n bryderus ynghylch lleddfau effaith y cau ar y busnesau yng nghadwyn gyflenwi'r cwmni a gofnasant a oedd y WDA yn ceisio eu cynorthwyo'n weithredol ynteu dim ond ymateb i alwadau am gymorth. Dywedodd Graham Moore nad oedd yn hawdd bod yn rhagweithiol yn hyn o beth oherwydd y materion cytundebol rhwng Corus a'r cyflenwyr. Er hynny, yr oeddent yn gwneud hynny a allent i helpu cyflenwyr.
- h. Croesawodd yr Aelodau'r ffaith bod nifer fawr o gyrff yn gweithio gyda'i gilydd i helpu pobl yn Corus a phwysleisiant ei bod yn bwysig nad oedd y trefniadau'n peri dryswch i'r bobl yr oeddent yn ceisio eu cynorthwyo. Credai'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ei bod yn annhebygol bod hynny'n wir gan eu bod wedi sefydlu canolfannau ar bob safle ac yr oedd arwyddion cyfeirio da at y rhain a'r cyrff cymorth eraill. Pwysleisiodd nad cyngor 'unwaith ac am byth' oedd yr hyn a gynigid ond cymorth dros gyfnod o amser.
- i. Dywedodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes na allai ddyfynnu targedau ffurfiol am y niferoedd a gâi gymorth gan ei bod yn teimlo nad oedd yn iawn gweithio felly. Yr oedd anghenion pob unigolyn, a'r cymorth yr oedd ei angen, yn wahanol ac yr oedd yn bwysig ceisio cwrdd â'r rheini ac nid 'clocio' niferoedd y cyfweliadau'n unig..
- j. Nododd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd na ellid adfer ac ailddatblygu safleoedd gweithfeydd Corus mewn cyfnod byr. Ei amcangyfrif gorau oedd mai yn 2005 y byddai safle clir ar gael ar y cynharaf ac felly yr oedd yn bwysig edrych yn awr ar ba safleoedd eraill a oedd ar gael i'w datblygu. Dywedodd yr Aelodau nad oedd safleoedd glân ac adeiladau newydd yn ddigon ar eu pennau eu hunain. Yr oedd yn bwysig darparu amrediad llawn o gymorth a seilwaith fel y gellid lleoli a datblygu busnesau newydd yno.
- k. Mynegodd yr Aelodau bryder y dylid cymryd camau i leihau'r perygl o gau gweithfeydd fel hyn eto a

hefyd y dylai'r Cynulliad geisio rhagweld a lleihau effaith colledion swyddi o'r fath yn y dyfodol.

1. Mynegwyd pryder penodol ynghylch y sefyllfa yng Nglyn Ebwy lle'r oedd y rhan fwyaf o'r gyflogaeth yn y gwaith dur. Dywedodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd mai un nod pwysig fyddai helpu'r dref i ddatblygu economi fwy amrywiol. Ar ben hynny, ei nod oedd datblygu cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd â blaenau'r cymoedd.
- m. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch yr ardaloedd rhwng Glyn Ebwy a Chasnewydd a oedd yn dibynnu ar y gweithfeydd dur am gyflogaeth ac a oedd yn dioddef gan golledion swyddi mewn gweithfeydd eraill yn eu hardaloedd eu hunain.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor

Mai 2001

Cofnodion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes

Dyddiad: 23 Mai 2001

Amser: 3.15pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

Presenoldeb:

Aelodau

Cynog Dafis, Cadeirydd	Plaid Cymru	Canolbarth a Gorllewin Cymru
Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad	Llafur	Pontypridd
Lorraine Barrett	Llafur	De Caerdydd a Phenarth
Eleanor Burnham	Democratiaid Rhyddfrydol	Gogledd Cymru
Janice Gregory	Llafur	Ogwr
Gareth Jones	Plaid Cymru	Conwy
Huw Lewis	Llafur	Merthyr Tudful a Rhymni
Jonathan Morgan	Ceidwadwyr	Canol De Cymru
Alun Pugh	Llafur	Gorllewin Clwyd

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor

Chris Reading	Clerc
Holly Pembridge	Dirprwy Glerc

Swyddogion

Richard Davies	Cyfarwyddwr, Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol
Tom Hunter	Yr Is-adran Addysg Uwch
Catrin Huws	Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol

Ymddiheuriadau

Pauline Jarman

Dirprwyadau

Dim

Datganiadau o Fuddiant

Cynog Dafis Athro Cofrestredig

Jane Davidson Athrawes Gofrestredig

Huw Lewis Athro Cofrestredig

Lorraine Barrett Llywodraethwr Ysgol

Pauline Jarman Aelod o Lys y Llywodraethwyr, Prifysgol Caerdydd;
ac Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Gareth Jones Athro Cofrestredig; ac aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd

Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor, ymhellach i'w femorandwm, a oedd yn ymgorffori cyngor cyfreithiol, a anfonwyd at holl Aelodau'r Pwyllgor ar fore 23 Mai 2001, ei fod yn barod i dderbyn cynnig ysgrifenedig oddi wrth Huw Lewis ar fater y papur a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan Dafydd Glyn Jones ar 17 Mai 2001. Yr oedd Huw Lewis a Janice Gregory wedi teimlo bod goslef estrongasaol a rhywiaethol i'r papur ac y dylai gael ei ddileu o'r cofnod a'i ddiystyru'n llwyr gan y Pwyllgor. Yr oedd cyfarfod wedi ei gynnal gyda'r hwyr ar 22 Mai 2001 rhwng y Cadeirydd, y Clerc, Marie Knox (Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor), Huw Lewis a Janice Gregory i drafod y mater hwn. Yr oedd Lorraine Barrett hefyd yn bresennol yn y cyfarfod hwn. Cynigiodd y Cadeirydd y dylid trafod a phleidleisio ar y mater hwn yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 13 Mehefin 2001, er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o amser y Pwyllgor yn y cyfarfod hwn. Yna gwahodwyd y Pwyllgor i wneud sylwadau ar y mater hwn.

Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Dywedodd Huw Lewis y dylai'r Pwyllgor ddiystyru'r deunydd hwn fel mater o egwyddor gan ei fod yn dramgwyddus. Yr oedd Huw Lewis wedi ysgrifennu llythyr at bapur newydd y Western Mail, gan amlinellu ei bryder ynghylch y mater hwn. Derbyniai Huw Lewis na ellid dileu'r deunydd hwn o'r cofnod.
- Credai'r Cadeirydd fod ei benderfyniad i ohirio pleidlais ar gynnig, yr oedd Huw Lewis yn bwriadu ei gynnig, tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 13 Mehefin 2001, yn un cywir. Dyfarnodd y Cadeirydd na fyddai trafodaeth am y cynnig hwn yn digwydd yn y cyfarfod hwn ond yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 13 Mehefin. I ategu ei benderfyniad, dyfynnodd y Cadeirydd baragraff pump o Ganllawiau'r Llywydd a Gyhoeddwyd yn Unol â Rheol Sefydlog 8.17 (Cynigion mewn Pwyllgor). Ychwanegodd ei bod yn bwysig iawn bod cynnig yn cael ei gyflwyno cyn cyfarfod y Pwyllgor.
- Dywedodd Huw Lewis fod paragraff pump yn Arweiniad y Llywydd ar 'Cynigion mewn Pwyllgor' yn amwys yn ei farn ef: yr oedd hawl gan y Pwyllgor i gytuno i ohirio trafodaeth ynghylch cynnig. Dywedodd Huw Lewis fod y Cadeirydd efallai'n dymuno gohirio trafodaeth ar y cynnig arfaethedig tan ar ôl yr Etholiad Cyffredinol. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn cael cyfeiriad Huw Lewis at yr Etholiad Cyffredinol yn sarhaus a bod ei benderfyniad i ohirio'r drafodaeth ar y cynnig hwn wedi ei seilio'n gyfan gwbl ar egwyddor.
- Yn unol â pharagraff pump, atgoffaodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod tri phosibiliad:
- "Caiff pwyllgor gytuno i ohirio'r bleidlais ar gynnig a gynigiwyd;
- Caiff aelod pwyllgor ofyn am ohiriad o'r fath; neu
- Caiff y cadeirydd ddyfarnu y bydd y bleidlais ar gynnig a gynigiwyd yn cael ei gohirio tan gyfarfod yn y dyfodol, lle y mae o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny er mwyn cynnal y busnes yn briodol."

Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod ei benderfyniad wedi ei seilio ar y trydydd dewis. Yr oedd hefyd wedi derbyn cyngor gan unigolion diduedd: Marie Knox (Pennaeth Cangen, Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor) a

Chlerc y Pwyllgor, Chris Reading. Yna gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i wneud sylwadau am ei ddyfarniad.

- Dywedodd Jonathan Morgan nad oedd yn cytuno â dehongliad y Cadeirydd o baragraff pump, gan ei fod yn amwys yn ei farn ef, na dyfarniad y Cadeirydd ar y mater hwn. Cyfeiriodd at baragraff pump, "*caiff y pwyllgor gytuno i ohirio,*" ac awgrymodd y dylid ceisio arweiniad pellach ac y dylai paragraff pump gael ei ddiwygio ymhellach gan y Pwyllgor Busnes. Hysbysodd y Cadeirydd Jonathan Morgan ei fod wedi dewis y trydydd dewis o'r canllawiau.
- Dywedodd Huw Lewis ei fod yn ei chael yn anodd credu na allai Pwyllgor herio dyfarniad ei Gadeirydd. Gofynnodd hefyd a oedd y Cadeirydd yn awgrymu bod ganddo bwerau unbenaethol fel Cadeirydd dros y Pwyllgor. Dywedodd Huw Lewis wrth y Cadeirydd ei fod yn ei herio ar y dyfarniad hwn a bod y Rheolau Sefydlog yn sicr o fod yn ddiffygiol. Hysbysodd y Cadeirydd Huw Lewis ei fod wedi derbyn cyngor annibynnol a'i fod yn gweithredu'n unol â'r Rheolau Sefydlog ac Arweiniad y Llywydd. Gofynnodd Huw Lewis i'r Cadeirydd a oedd yn anwybyddu ewyllys y Pwyllgor. Dyfynnodd y Cadeirydd y rhan berthnasol o Reol Sefydlog 8.17 - "Ac eithrio lle mae'r rheolau sefydlog yn darparu fel arall, cadeirydd pwyllgor fydd yn pennu ei weithdrefnau."
- Ychwanegodd Gareth Jones fod y Cadeirydd, yn ei farn ef, wedi derbyn cyngor annibynnol, diduedd ac y dylai'r Pwyllgor barchu a derbyn y penderfyniad hwnnw. Ychwanegodd y Cadeirydd y gellid ystyried un o'r dewisiadau ym mharagraff pump, "*lle y mae aelod pwyllgor yn gofyn am ohiriad o'r fath...*" ond nad oedd angen gwneud hynny gan fod p^wer gan y Cadeirydd i ohirio trafodaeth. Ychwanegodd nad oedd y ffaith ei fod yn gohirio'r drafodaeth yn golygu ei fod yn terfynu'r drafodaeth. Awgrymodd Eleanor Burnham y dylai'r Pwyllgor dderbyn cyngor y Cadeirydd gan ei fod wedi egluro nad oedd yn cyfyngu ar y drafodaeth, dim ond ei gohirio.
- Gofynnodd Jonathan Morgan i'r Cadeirydd roi rhyw gyfiawnhad dros y penderfyniad i ohirio'r drafodaeth ynghylch cynnig arfaethedig Huw Lewis, mewn perthynas â chynnal busnes yn briodol a pham yr oedd y Cadeirydd o'r farn y byddai trafodaeth ar unwaith ar y cynnig arfaethedig yn effeithio ar gynnal busnes yn briodol. Atebodd y Cadeirydd fod cynnal busnes yn briodol yn cael ei ddehongli'n fras. Ar sail difrifoldeb y drafodaeth/cynnig, nid oedd ond yn iawn, o ran cynnal y busnes yn briodol, fod y cynnig yn cael ei gyflwyno ymlaen llaw. Dylai'r Aelodau weld y cynnig cyn ei gyflwyno er mwyn cael cyfle i gyflwyno unrhyw welliannau. Yr oedd y Cadeirydd yn ystyried y mater hwn yn un o'r pwys mwyaf.
- Gofynnodd y Gweinidog i'r Cadeirydd a allai gadarnhau bod yr amserlen wedi ei hegluro i'r rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod y noson cynt: 22 Mai 2001. Dywedodd y Gweinidog hefyd nad oedd cyfeiriad yng nghofnodion y cyfarfod blaenorol (17 Mai 2001) at ei chais i Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor ac/neu'r Cadeirydd hidlo deunydd cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor a chanfod a allai unrhyw ddeunydd beri tramgwydd i unrhyw Aelod o'r Pwyllgor. Dywedodd y Gweinidog fod angen ateb priodol i'r cwestiwn hwn. Hefyd, nododd y Gweinidog nad oedd barn gyfreithiol ynghylch y materion yn ail baragraff memorandwm y Cadeirydd a gylchredwyd i'r Aelodau. Mewn perthynas â sylw cyntaf y Gweinidog, atebodd y Cadeirydd ei fod wedi datgan yn y cyfarfod ar 22 Mai 2001 y byddai'n derbyn y cynnig ac yn cael cyngor ynghylch pa bryd y byddid yn trafod y cynnig. Ynghylch ail sylw'r Gweinidog am hidlo deunydd cyn iddo gyrraedd y Pwyllgor, dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi ei dramgwyddo gan sylwadau'r Gweinidog ar hynny yn y cyfarfod blaenorol.
- Gofynnodd Janice Gregory i'r Cadeirydd pa bryd y byddai'n rhoi gwybod i'r Pwyllgor pa bryd y gallai drafod y cynnig neu ba bryd y gallai'r Pwyllgor herio'r Cadeirydd. Gofynnodd hefyd a gredai'r Cadeirydd na fyddai neb yn ei herio yn y cyfarfod heddiw, yn enwedig gyda golwg ar y ffaith bod cyfarfod wedi ei gynnal y tu allan i'r Pwyllgor y noson cynt (22 Mai 2001). Atebodd y Cadeirydd ei fod wedi rhagdybio, yn y cyfarfod hwnnw (y noson cynt), y byddai'r Pwyllgor yn dilyn ei arweiniad. Awgrymodd wedyn y fyddai'n gymryd cyngor pellach oddi wrth y Llywydd.
- Hysbysodd y Cadeirydd Huw Lewis y câi gyflwyno ei gynnis. Yna cyflwynodd Huw Lewis y cynnig

ysgrifenedig a ganlyn:-

"Mae'r pwyllgor hwn yn nodi gyda phryder gynnwys y papur "Y Safon a'r Cyfrwng" gan Dafydd Glyn Jones (ELL 09-01, (p.5)), a gyflwynwyd fel tystiolaeth i ni fel rhan o'r Adolygiad Addysg Uwch.

Cred y pwyllgor y gellid dehongli rhai rhannau o'r papur os na ellir eu dileu yn rhai anesgusodol o dramgwyddus.

Mae'r pwyllgor hwn yn penderfynu rhoi'r papur hwn o'r neilltu, fel na chaiff ei gynnwys yn y dystiolaeth a gesglir ar gyfer ein trafodaethau terfynol. Galwn hefyd ar ein cynghorydd arbenigol i beidio â chynnwys y papur hwn fel tystiolaeth a ystyrir ar gyfer ei adroddiad."

- Dywedodd Gareth Jones mai hwn oedd y tro cyntaf iddo weld cyflwyno cynnig yn ffurfiol fel hyn. Holodd ynghylch yr hawliau a oedd ganddo i gynnig gwelliannau a pha bryd y gallai eu cyflwyno. Dywedodd tybed a oedd papur a ystyrir yn "anesgusodol o dramgwyddus" yn fater i'r Llywydd, yn hytrach na'r Pwyllgor. Atebodd y Cadeirydd y byddai cyfle i gael trafodaeth drefnus yn gorfod digwydd ar ôl i'r holl Aelodau weld y cynnig. Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau y dylai unrhyw welliannau i'r cynnig gael eu cyflwyno i'r Clerc o leiaf ddau ddiwrnod gweithio cyn y cyfarfod nesaf.

Eitem Dau: Adolygiad Polisi – Addysg Uwch - Cyflwyniad gan Gyrrff Undebau Llafur

Papurau: ELL 10-01 (p.3), (p.4), (p.5) a (p.6)

2.1 Cyflwynodd Barry Johnson, (Ysgrifennydd Cyffredinol Cynorthwyol) a Howard Moss (Cymdeithas Athrawon Prifysgol Abertawe) ar ran Cymdeithas Athrawon Prifysgol Cymru; gellir cael copi caled o'r cyflwyniad tryloywlluniau oddi wrth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor. Cyflwynodd Dr Len Arthur (aelod o'r NEC AU) a Margaret Phelan (Swyddog Cymorth Rhanbarthol) ar ran Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Bellach ac Uwch. Cyflwynodd Gruff Hughes (Dirprwy Ysgrifennydd Cyffredinol) a Dilwyn Roberts Young (Aelod o Adran y Colegau) ar ran Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru; gellir gweld copi o'u papur wedi ei gyfieithu i'r Saesneg yn Atodiad B. Cyflwynodd Paul Elliott (Uwch Swyddog Rhanbarthol) a Keith Bolton, (Cadeirydd Pwyllgor Addysg Uwch Unsain Cymru) ar ran Unsain. Cyflwynodd Martin Mansfield (Swyddog Rhanbarthol) ar ran Gweithgynhyrchu, Gwyddoniaeth a Chyllid, Cymru. Cyfeiriodd cyflwynwyr/ cynrychiolwyr y Gyrrff Undebau Llafur at eu papurau. Ni ddarparwyd papur gan Martin Mansfield o Weithgynhyrchu, Gwyddoniaeth a Chyllid ond siaradodd yn fyr am aelodaeth fawr iawn Gweithgynhyrchu, Gwyddoniaeth a Chyllid yn y sector preifat. Ychwanegodd fod ar brifysgolion angen mwy o gyllid gan y byddai hynny'n sicr o fod yn llesol i dwf yr economi.

2.2 Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Gofynnodd Lorraine Barrett pam nad oedd papur Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru ond ar gael i'r Aelodau drwy gyfrwng y Gymraeg. Eglurodd y Cadeirydd fod y papur wedi ei dderbyn ddiwrnod cyn y cyfarfod ac o ganlyniad na fu modd ei gyfieithu mewn pryd. Byddid yn dosbarthu fersiynau Saesneg i'r Aelodau cyn gynted ag y byddent ar gael. *Gellir gweld fersiwn o'r papur hwn yn awr yn Atodiad B.*
- Yr oedd y cynrychiolwyr o'r Undebau Llafur yn anfodlon ar y maint o amser a ddyrannwyd iddynt i roi cyflwyniadau gerbron y Pwyllgor. Cytunodd Huw Lewis â'r safbwynt hwn a dadleuodd yr ymddangosai fod "academydd sy'n coleddu safbwyntiau anwadal a gafodd ei ddewis mae'n ymddangos ar fympwy" wedi cael mwy o amser na'r holl undebau llafur gyda'i gilydd, yn y cyfarfod

blaenorol ar 17 Mai 2001. Atebodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor eisoes wedi cytuno ar y Flaenraglen Waith ac nad oedd yr Undebau Llafur wedi dod o dan un o'r Themâu Allweddol a gytunwyd hefyd gan y Pwyllgor. Felly, yr oedd yr Undebau wedi eu cynnwys o fewn yr amser a oedd ar gael gan y Pwyllgor, yn unol â'r hyn a oedd yn gyfleus iddynt hwy ac amserlen gyffredinol yr adolygiad.

- Tynnodd Huw Lewis sylw Barry Johnson o Gymdeithas Athrawon Prifysgol Cymru at y ffaith ei fod yn disgwyl i'r gwahanol ffigurau cymhariaeth am Gymru a'r Alban ddangos bod gwariant yr Alban 20% yn uwch na gwariant Cymru. Tynnodd sylw at y ffaith bod myfyrwyr yn yr Alban yn cymryd graddau dros gyfnodau o bedair blynedd a bod myfyrwyr yng Nghymru yn dilyn eu hastudiaethau dros gyfnod o dair blynedd fel arfer. Ymgwymerodd Barry Johnson i wirio'r ffigurau hyn.
- Holodd yr Aelodau a oedd y cyflwynwyr yn cytuno â syniad Dafydd Glyn Jones (17 Mai 2001) o leihau maint Prifysgol Cymru er mwyn addysgu *élite* brodorol a hunanbarhaol. Atebodd Margaret Phelan o Gymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Bellach ac Uwch nad oedd yn cynrychioli'r holl Undebau Llafur ond nid oedd Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Bellach ac Uwch yn cytuno â syniadau Dafydd Glyn Jones. Fodd bynnag, yr oedd Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Bellach ac Uwch yn cytuno â Dafydd Glyn Jones fod y lefelau presennol o ddysgu Cyfrwng Cymraeg yng Nghymru yn rhy isel ac, felly, yn annerbyniol pan na ellid dysgu myfyriwr drwy gyfrwng y Gymraeg. Ychwanegodd Margaret Phelan fod barn Bwrdd Dysgu Cyfrwng Cymraeg y Brifysgol yn fwy priodol ym marn Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Bellach ac Uwch. Dywedodd Dilwyn Roberts o UCAC na fu'n bresennol yn y cyfarfod ar 17 Mai 2001 ond ychwanegodd fod papur Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru yn nodi pwysigrwydd denu myfyrwyr o wledydd tramor a bod mewnbwn o'r fath yn holl bwysig i iechyd academiaidd Cymru. Ychwanegodd Gruff Hughes o Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru nad oedd yn bolisi gan Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru gael un sefydliad yn unig; byddai'n fwy perthnasol cael corff a oedd yn adolygu beth a gâi ei ddysgu/addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Dadleuodd Gruff Hughes fod yr adnoddau craidd gan Gymru ond bod rhai athrawon a siaradai (rywfaint) o Gymraeg nad oeddent yn meddu ar yr hyder i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gofynnodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr wneud sylw ar syniad Dafydd Glyn Jones y byddai myfyrwyr a oedd yn rhan o Goleg Ffederal Cymraeg yn bresennol ym mhob Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru. Dywedodd Dilwyn Roberts eto nad oedd wedi gweld na chlywed cyflwyniad Dafydd Glyn Jones, felly ni allai wneud sylw ar hynny. Dywedodd Martin Mansfield o Weithgynhyrchu, Gwyddoniaeth a Chyllid Cymru na welsai bapur Dafydd Glyn Jones ond dywedodd na fyddai Gweithgynhyrchu, Gwyddoniaeth a Chyllid Cymru yn cefnogi ei syniadau a buasai wedi cael ei farn yn annerbyniol. Byddai Gweithgynhyrchu, Gwyddoniaeth a Chyllid Cymru yn dadlau dros geisio ehangu cyfleoedd addysg i gynnwys mwy o bobl, nid cyfyngu'r cyfleoedd hyn i leiafrif.
- Gofynnodd Gareth Jones i'r cyflwynwyr wneud sylw ar fater cyllid, gan ei bod yn ymddangos bod hynny'n un o briif bryderon y cyflwynwyr. Ychwanegodd Gareth Jones fod y llywodraeth bresennol yn anghytuno â hynny. Atebodd Paul Elliott o Unsain fod cyllid yn bwysig er mwyn cynnal statws Sefydliadau Addysg Uwch. Eglurodd fod cynnydd wedi digwydd yn y gystadleuaeth rhwng Sefydliadau Addysg Uwch ym mlynnyddoedd y Torïaid, yn ei farn ef. Ar hyn o bryd yr oedd 2.9 miliwn o bobl yng Nghymru ac nid oedd modd i'r sylfaen boblogaeth hon gynnal 13 o sefydliadau; byddai'n rhaid i Gymru gystadlu ledled y byd i gael myfyrwyr. Ychwanegodd Paul Elliott fod Prifysgol Cymru, Aberystwyth wedi cael ymgyrch recriwtio lwyddiannus yn ddiweddar. Yr oedd yn amlwg ei bod o fudd i bawb a oedd yn gysylltiedig i Gymru sicrhau cydraddoldeb o ran cyllid â Lloegr neu'r Alban.
- Diolchodd y Gweinidog i'r Undebau Llafur am ymbresenoli ac ymatebodd i sylw blaenorol Gareth Jones. Dywedodd y Gweinidog fod y Cynulliad a hithau wedi cydnabod yn gyhoeddus nad oedd gan Gymru uned adnodd debyg i rai Lloegr neu'r Alban. Dywedodd y Gweinidog ei bod hefyd wedi trafod mater cyllid gyda'r Undebau unigol. Ychwanegodd fod y Cynulliad wedi rhoi arian yn ddiweddar at gyllido Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru a oedd wedi cau'r bwlch yn sylweddol. Fodd bynnag, yr oedd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth yn Lloegr wedi darparu cyllid pellach yn

ddiweddar ar gyfer Lloegr ac yr oedd hyn wedi lledu'r bwlch eto. Dadleuodd y Gweinidog y byddai Cymru dros amser yn ystyried mwy o gydraddoldeb o ran cyllid â Lloegr neu'r Alban. Hysbysodd y Gweinidog y Pwyllgor ei bod yn llwyr gydnabod y materion Cyfrwng Cymraeg, h.y. diffyg dysgu Cyfrwng Cymraeg ac yr oedd hyn wedi ei godi yn adroddiad Estyn am y diffyg cyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sectorau Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Byddid yn rhoi sylw i'r mater hwn pan fyddai'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn ymdrin â'r Adolygiad o'r laith Gymraeg, ochr yn ochr â'r Pwyllgor Diwylliant yn Hydref 2001.

- Gofynnodd y Cadeirydd i Dr Len Arthur o Gymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Bellach ac Uwch ymhelaethu ar ei bwynt ynghylch y modd y dylai cyllido hyrwyddo cydweithio ac nid cystadlu; holodd y Cadeirydd am yr adnoddau ariannol a fyddai'n angenrheidiol fel y gallai'r ailstrwythuro hwn ddigwydd. Dywedodd Dr Len Arthur y gellid cael sylfaen ar gyfer dilysiad cyffredin ledled Cymru, e.e. gwasanaethau llyfrgell a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Yr oedd yn bwysig bod cyllid ar gael i leddfu'r ofn neu'r posibilid o resymoli a'r diswyddiadau a ddilynai hynny. Dadleuodd Dr Arthur y byddai'r Cyngor Cyllido yn cydweithredu ond dim ond os câi ei gyfarwyddo gan y Cynulliad Cenedlaethol. Tynnodd Keith Bolton o Unsain sylw at y ffaith ei fod wedi sylwi, yn ystod Adolygiad y Pwyllgor o Addysg Uwch, fod y penaethiaid Addysg Uwch wedi cydweithio ymysg ei gilydd a hefyd â'r Pwyllgor. Ychwanegodd fod gan Addysg Uwch Cymru "egni"; yr oedd digonedd o gydweithio yng Nghymru.
- Gofynnodd y Gweinidog i bob undeb wneud sylw ynghylch sut y gellid cynnwys anogaeth mewn cyllido helaeth i'r Sefydliadau Addysg Uwch mewn gwlad fach a sut y gellid annog myfyrwyr tramor i astudio mewn Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru. Gofynnodd y Gweinidog hefyd i gyflwynwyr pob undeb fwrw amcan ynghylch priod fuddiannau eu haelodau mewn perthynas â chyllido trydedd genhadaeth. Atebodd Dr Arthur, mewn perthynas â chyllido trydedd genhadaeth, fod angen cynnal ymchwil elfennol ac ymchwil gymhwysol. Yr oedd nifer o gynlluniau ar waith, fel Cymorth Cymru, a oedd yn cynnig gwasanaethau a dderbyniai gymhorthdal oddi wrth gynlluniau Ewropeaidd. Yr oedd angen i'r Cynulliad Cenedlaethol a'r gwahanol asiantaethau edrych ar y cynlluniau ac asesu unrhyw orgyffwrdd gan gynlluniau o'r fath gan fod diffyg cydlynw yn gyffredinol. Gyda golwg ar fyfyrwyr tramor, yr oedd angen gwerthu Cymru dramor, gan fod modd i bron y cwbl o'r sefydliadau gynneg graddau a gydnabyddir yn rhyngwladol. Yr oedd cyllid yn bwysig er mwyn denu myfyrwyr tramor. Mynegodd Dr Arthur bryder ynghylch y cyhoeddusrwydd negyddol yr oedd Addysg Uwch yng Nghymru wedi ei dderbyn yn ddiweddar. Ychwanegodd mai un modd i gynnig anogaeth fyddai rhoi contractau mwy sefydlog i staff a dileu'r duedd at gyflogaeth achlysurol. Yn ei farn ef, dylid gweithredu adroddiad Bett a dylid ymdrin â'r agenda Cyfle Cyfartal. Cytunodd Paul Elliott o Unsain fod sefydliadau llai yn profi problemau wrth geisio ymdopi a denu myfyrwyr. Byddai'n rhaid i'r holl brifysgolion gydweithio a dylid sefydlu uned farchnata tramor i brifysgolion Cymru. Dywedodd Paul Elliott fod Pedwarawd Caerdydd wedi gwneud argraff arno; dywedodd fod Cymru yn dal i fod yn anadnabyddus iawn yn y byd ehangach. Yr oedd angen nod a strategaeth glir ar gyfer yr holl brifysgolion yng Nghymru.
- Dywedodd Eleanor Burnham y byddai unrhyw ddiffyg buddsoddi'n arwain at allgáu cymdeithasol neu gyni cynyddol ymysg myfyrwyr. Hysbysodd y Cadeirydd gynrychiolwyr yr Undebau y byddai croeso iddynt ddarparu mwy o fanylion/gwybodaeth (ysgrifenedig) os dymument wneud hynny.

Eitem Tri: Cofnodion Cyfarfod 17 Mai

Papur: ELL 09-01(mins)

3.1 Trafododd y pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol ar 17 Mai 2001.

2. Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Argymhellodd y Cadeirydd y dylid gwneud rhai newidiadau:

Tudalen 10 (paragraff cyntaf)

Yn lle, "y Cadeirydd...y buasai'n fwy priodol pe byddai Huw Lewis wedi cysylltu â'r Cadeirydd gyda'i bryderon..."

NEWID: " buasai'n well gan y Cadeirydd pe byddai Huw Lewis wedi datgan ei fwriad i gynnig cynnig i ddileu/neu i'r Pwyllgor beidio ag ystyried Papur Pump..."

Tudalen 12 (ail bwynt bwled)

Yn lle, " Dywedodd y byddai pawb a oedd yn dilyn rhyw ganran..., hyd yn oed un modiwl yn dod yn gymwys..."

NEWID: "Dywedodd fod dadl y dylai rhywun sydd yn dilyn rhyw ganran o'i astudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ddod yn gymwys i fod yn aelod o'r Coleg Ffederal Cymraeg..."

Cytunodd y Pwyllgor â'r newidiadau hyn.

- Cododd Huw Lewis y pryder nad oedd y cofnodion yn datgan bod y Cadeirydd wedi cytuno i'r cynnig gael ei godi yn y cyfarfod nesaf. Atebodd y Cadeirydd y byddai'n ystyried hynny.
- Dwedodd y Gweinidog "Ni allaf weld unrhyw gyfeiriad ar unwaith yn y cofnodion at y cwestiwn penodol ar y mater hwn a ofynnais ar ddiwedd cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Roedd y cwestiwn yn ymwneud â gallu naill ai Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor neu'r Cadeirydd i edrych ar ddeunydd cyn cyflwyniadau i'r Pwyllgor os teimlid y gallai anawsterau godi oherwydd bod y deunydd yn cynnwys rhywbeth a allai gael ei ystyried yn sarhaus i unrhyw aelod o'r Pwyllgor. Nid oes unrhyw gyngor cyfreithiol mewn perthynas â hynny. Ymddengys nad yw wedi'i gynnwys yn y Cofnodion, ond eto, yn fy marn i mae'n gwestiwn yr oedd angen ateb dilys iddo, ac roedd angen ateb dilys iddo o flaen y Pwyllgor hwn heddiw..."
- Dywedodd Gareth Jones ei fod yn cael yr awyrgylch gelyniaethus yn y cyfarfod hwn yn annerbyniol.

Wedyn derbyniodd y Pwyllgor gyfarwyddyd preifat gan Gyngorydd Arbenigol yr Adolygiad Addysg Uwch, yr Athro Les Hobson .

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mai 2001

Pwyntiau Gweithredu Atodiad A

1. Holi'r Gweinidog yn fanwl, drwy ei hadroddiad misol i'r Pwyllgor, ar weithredu'r pecyn mesurau £7 miliwn i gynorthwyo addysg a hyfforddiant y gweithwyr a effeithir gan y diswyddiadau yn Corus.
2. Darparu cyfieithiad Saesneg o bapur UCAC (ELL 10-01 (p.5)) i'r Aelodau.

Atodiad B

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

AROLWG ADDYSG UWCH

CYFLWYNIAD

ar ran

UNDEB CENEDLAETHOL ATHRAWON CYMRU

Dydd Mercher, 23 Mai 2001

Hoffwn yn gyntaf ddiolch i chi ar ran Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru am y cyfle i roi'r cyflwyniad hwn i Bwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Undeb yn croesawu'r Adolygiad o Addysg Uwch ac yn falch o gael y cyfle i fod yn rhan o'r broses.

CYLLID DIGONOL

*Mae'n hollbwysig bod cyllid digonol yn cael ei neilltuo ar gyfer addysg uwch, a chred yr Undeb hwn bod angen newid sylweddol yn y **modd** y cyllidir ein colegau a chynnydd sylweddol yn y **swm** a ddarperir ar eu cyfer. Mae gofyn ystyried cyllido o ran yr hyn sy'n digwydd yn ein colegau ar hyn o bryd a'r her sydd yn wynebu'r colegau yn y blynyddoedd sydd i ddod. Dylid sicrhau cyfleon cyfartal i'n sefydliadau gan sicrhau bod y cyllid am bob myfyriwr yn gydradd â'r cyllid yn Lloegr ac yn ymgyrraedd tuag at yr hyn sydd ar gael yn yr Alban. Dylid hefyd gydnabod anghenion gwahanol ein colegau a chreu fformwla gyllidol sy'n*

adlewyrchu hyn. Rhaid gosod unrhyw gynnydd arfaethedig mewn cyllido yng nghyd-destun cyfraniad sylweddol ein colegau addysg uwch i economi Cymru yn lleol ac yn genedlaethol.

CYSONI CYFLOGAU

Mae'n gwbl angenrheidiol bod cyflogau darlithwyr yn cael eu cysoni trwy Gymru gyfan a hynny yn unol ag Adroddiad Brett. Mae angen cysondeb er mwyn denu'r safon uchaf o addysgwyr ac ymchwilwyr i'n sefydliadau gan fod yn ymwybodol bod angen y fath strategaeth i gadw addysgwyr ac ymchwilwyr yn ein sefydliadau.

SICRWYDD I DDARLITHWYR

Os ydyw addysg uwch i edrych ymlaen i'r dyfodol yn hyderus yna mae'n rhaid i ddarlithwyr hefyd wynebu'r dyfodol yn yr un ysbryd. Mae gormod o ddefnydd ar gytundebau tymor byr o fewn ein sefydliadau addysg uwch. Yn wir, gellir dadlau bod diwylliant o gytundebau tymor byr o fewn y sector. Gall hyn atal ymgeiswyr o'r radd flaenaf rhag ymgeisio am swyddi o fewn ein sefydliadau. Gellir dadlau, yn ogystal, nad ydyw cytundebau tymor byr yn rhoi'r anogaeth angenrheidiol ar ddarlithwyr i gynllunio eu haddysgu ac ymchwilio yn nhermau tymor hir.

Y GYMRAEG

Cred Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru bod gan y sector addysg uwch yma yng Nghymru gyfrifoldeb i ddarparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r hyn sy'n digwydd yn ein sefydliadau addysg uwch, lle addysgir bron i bopeth trwy gyfrwng y Saesneg, yn effeithio ar y sectorau cynradd, uwchradd ac addysg bellach. Gan nad ydyw'r ddarpariaeth Gymraeg ar lefel brifysgol yn ddigonol mae yma golli dilyniant sy'n cael effaith andwyol ar yr iaith. Mae angen ehangu ar yr addysg cyfrwng-Cymraeg yn ein sefydliadau, a golyga hyn fuddsoddiad hir-dymor o ran cyllid a threfniadaeth er mwyn llwyddo i gynnig darpariaeth o'r fath.

Dylid:

- creu strategaeth benodol fel bod nifer sylweddol o staff yn cael eu penodi i addysgu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg fel modd i ehangu ar nifer y pynciau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg*
- creu rhaglen hyfforddiant iaith ar draws y sector addysg uwch i godi lefelau gallu a hyder staff sydd yn siarad Cymraeg ac i'w cynorthwyo i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg*
- creu rhaglen sydd yn rhyddhau darlithwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg i ddysgu'r iaith*
- creu rhaglen sgiliau Cymraeg i fyfyrwyr sy'n astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg a sicrhau bod rhaglenni o'r fath yn cael eu derbyn yn gymhwyster penodol a gydnabyddir gan y sector addysg uwch*
- creu rhaglen sy'n rhoi anogaeth statudol i fyfyrwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg i ddysgu'r iaith gan glymu'r cyrsiau hyn i'w cyrsiau gradd*
- creu rhaglen sgiliau Cymraeg ar gyfer myfyrwyr fydd yn eu paratoi ar gyfer swyddi yn y sector cyhoeddus.*

Byddai rhaglenni o'r fath yn fwyaf llwyddiannus o'u gosod mewn fframwaith fyddai'n cynnig y gwerth gorau i'r buddsoddiad yn yr iaith Gymraeg y mae'r Undeb yn galw amdano.

COLEG FFEDERAL CYMRAEG

Mae Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru yn galw am Goleg Ffederal Cymraeg – coleg fydd yn creu rhwydwaith o ddarlithwyr, ymchwilwyr a myfyrwyr trwy golegau Cymru. Mewn hinsawdd sy'n gwneud defnydd o'r dechnoleg newydd a dulliau newydd o addysgu mae'n amserol i roi ystyriaeth lawn i sefydliad o'r fath

Mae'r Undeb yn gweld y Coleg Ffederal Cymraeg yn un fydd yn rhan o bob sefydliad addysg uwch yma yng Nghymru ac yn un fydd yn cynnig cyrsiau cyfan a modiwlau unigol trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai'r addysgu yn galw ar y sector addysg uwch i wneud defnydd ar addysgu trwy gyfrwng y Rhyngrwyd, cynadledda fideo a chysiau preswyl. Er mwyn sicrhau llwyddiant menter o'r fath byddai angen penodi tîm cyfarwyddo a gweinyddol.

Byddai sefydlu Coleg Ffederal Cymraeg yn gwneud defnydd pwrpasol o'r buddsoddiad yn y Gymraeg a awgrymir uchod a hefyd yn cynnig model ar gyfer cyrsiau o fewn ein colegau sydd am arbrofi gyda dulliau newydd o addysgu. Byddai hefyd yn agwedd flaenllaw o waith rhyng-sefydliadol sydd yn digwydd ar hyn o bryd.

DEUNYDDIAU

Mae Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru am gydnabod y gwaith sydd eisoes yn digwydd yn ein sefydliadau addysg uwch i baratoi adnoddau a deunyddiau cyfrwng-Cymraeg. Byddai sefydlu Coleg Ffederal Cymraeg yn creu peirianwaith fyddai'n fodd i gydlynu'r gwaith sydd yn digwydd ac yn caniatáu cydweithio pwrpasol fyddai'n gochel unrhyw ailadrodd.

Mae cynseiliau ar gyfer cydlynu o'r fath eisoes yn bod yma yng Nghymru. Mae gan Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) gyfundrefn o bennu blaenoriaethau mewn cydweithrediad ag athrawon yn y sector cynradd ac uwchradd, ac mae rhai cynlluniau ar y gweill dan arweiniad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Galwn ar gyllid digonol i greu model fyddai'n un cenedlaethol ar gyfer y sector addysg uwch.

DENU MYFYRWYR

Rydym yn wlad ag iddi ei hiaith a'i diwylliant unigryw. Gall y gwahanolrwydd hwn fod yn abwyd i ddenu

myfyrwyr i'n sefydliadau o wahanol rannau o'r Deyrnas Gyfunol ac o wledydd eraill sydd yn rhannu clytwaith ieithyddol a diwylliannol tebyg. Yn wir, mae mewnbwn o'r fath yn anhepgor i'n hiechyd academaidd ac anacademaidd.

Ni ddylai hyn olygu nad ydym yn diystyru ein gwlad ein hunain. Cymru yw'r unig wlad yn Ewrop, mae'n siwr, lle mae mwyafrif ei myfyrwyr yn mynd allan o'u gwlad er mwyn derbyn addysg uwch. Rhaid sicrhau ein bod yn creu rhaglenni fydd yn meithrin perthynas glos rhwng y gymuned a'n sefydliadau, ac mae angen ail-ystyried trefniadaeth addysg uwch fel bod yr addysg honno'n ymateb i ofynion ein disgyblion neu'n dangos ymwybyddiaeth o anghenion ein myfyrwyr.

DYSGU YN Y GYMUNED/YN Y CARTREF

Mae Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru am longyfarch y colegau ar y gwaith sydd yn cael ei wneud yn y sector addysg uwch i arbrofi gyda dulliau newydd o addysgu, dulliau sy'n hwyluso mynediad.

Fodd bynnag, mae'r Undeb yn awyddus i bwysleisio bod angen sicrhau cefnogaeth gyllidol deilwng ar gyfer cynlluniau sydd yn gwneud defnydd o dechnoleg newydd a phrosiectau sy'n mynd i'r gymuned i gynnig cyfleon dysgu i'r cyhoedd. Mae'n ddyletswydd ar ein sefydliadau addysg uwch i sicrhau mynediad agored i rychwant eang o bobl sy'n dymuno dilyn cyrsiau addysg uwch ac mae dyletswydd ar y Cynulliad i gefnogi'r sefydliadau yn eu hymdrechion.

Mewn unrhyw drafodaeth ar ddenu myfyrwyr mae gofyn ystyried y gyfundrefn talu ffioedd a grantiau/benthyciadau cynnal.

DILEU FFIOEDD

Mae'n bolisi gan yr Undeb i alw am ddileu ffioedd myfyrwyr. Mae gofyn ail-ystyried yr holl gyfundrefn o dalu ffioedd – cyfundrefn sydd yn rhwystr i fynediad ac yn gosod oedolion mewn sefyllfa o fod yn ddibynol ar rieni. Mae'r fath drefniadaeth yn creu diwylliant o ddibyniaeth ac mae'r oblygiadau'n creu ansicrwydd i fyfyrwyr yn unigol ac yn cael effaith andwyol ar ein sefydliadau. Mae angen edrych yn fanylach ar ddulliau amgenach o gyllido sefydliadau addysg uwch gan gynnwys partneriaethu a dulliau nawdd.

AIL-GYFLWYNO GRANTIAU CYNNAL

Mae ail-gyflwyno grantiau cynnal yn mynd law yn llaw â dileu ffioedd ac eto mae gofyn ail-edrych ar y drefniadaeth grantiau. Mae'r sefyllfa fel ag y mae hi nawr yn llethu myfyrwyr am flynyddoedd ac nid oes dwywaith nad ydyw hyn yn aml yn anogaeth i beidio â dilyn gyrfa academaidd.

O ddileu ffioedd ac ail-gyflwyno grantiau cynnal yn yr Alban gwelwyd cynnydd aruthrol yn nifer y myfyrwyr yn yr Alban sy'n dewis peidio â mynd i Loegr a thu hwnt i astudio. Byddai'r fath sefydlogrwydd yn y boblogaeth yn fuddiol i iechyd economaidd a chymdeithasol Cymru.

Unwaith eto, carwn ddiolch, ar ran Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, am y cyfle i'ch annerch heddiw a dymunaf yn dda i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar eu hadolygiad o'r sector addysg uwch.

Gruff Hughes a Dilwyn Roberts-Young

Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

23 Mai 23 2001